Atodiad 2: Amserlen o'r gweithgareddau yr ymgymerwyd â nhw i gefnogi Hunanasesu yn 2021/22

- Cyflwynwyd y broses newydd i'r Grŵp Arweiniol ar 4 Mai, ac fe'i cymeradwywyd ar **25 Mai.**
- Cynhaliwyd y dadansoddiad bwrdd gwaith gan gasglu a dadansoddi'r dystiolaeth a oedd ar gael (data mewnol, tystiolaeth allanol ac ymgynghoriad) ym misoedd **Mai a Mehefin.**
- Rhoddwyd cyflwyniad ar y broses Hunanasesu newydd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar **6 Mehefin** i gefnogi'r Pwyllgor yn ei rôl statudol wrth adolygu'r Adroddiad Hunanasesu Drafft.
- Cyflwynwyd y broses Hunanasesu i'r Rheolwyr Corfforaethol ar **10 Mehefin.**
- Cynhaliwyd y Gweithdy Hunanasesu cyntaf i'r Grŵp Arweiniol ar **14 Mehefin** i ddynodi tystiolaeth, heriau, cyfleoedd ar gyfer gwella a sgoriau.
- Yna, cynhaliwyd ail Weithdy i'r Grŵp Arweiniol ar **11 Gorffennaf** i adolygu'r dystiolaeth a'r sgoriau a chymeradwyo'r Matrics Prif Lwybrau Ymholi sy'n cynnwys canlyniadau'r ymarfer.
- Cyflwynwyd y broses Hunanasesu i'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar **15 Gorffennaf** i gefnogi'r Pwyllgor yn ei rôl wrth roi safbwynt yr Aelodau ar berfformiad y Cyngor ynghyd â chyfleoedd ar gyfer gwella.
- Cynhaliwyd Gweithdy'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar **29 Gorffennaf** i gofnodi safbwyntiau'r Aelodau ar berfformiad y Cyngor a'r cyfleoedd ar gyfer gwella.
- Cynhaliwyd gweithdy arall gyda'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar **10 Awst** i adolygu'r sgoriau a'r Matrics Prif Lwybrau Ymholi ar ôl cael cymeradwyaeth y Grŵp Arweiniol.
- Paratowyd yr Adroddiad Hunanasesu Drafft ym mis **Awst** yn dilyn gweithdai'r Grŵp Arweiniol a'r Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu.
- Cyflwynwyd yr Adroddiad Hunanasesu Drafft i'r Grŵp Arweiniol ar **14 Medi** a'i gymeradwyo er mwyn mynd i'r Grŵp Arweiniol/Cabinet.
- Cyflwynwyd yr Adroddiad Hunanasesu Drafft i'r Grŵp Arweiniol/Cabinet ar **20 Medi.**
- Cyflwynwyd yr Adroddiad Hunanasesu Drafft i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar **27 Medi** yn rhan o rôl statudol y Pwyllgor wrth adolygu a gwneud argymhellion ar y casgliadau y daethpwyd iddynt yn yr adroddiad a'r camau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd. Cymeradwyodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yr adroddiad i fwrw iddi i gyhoeddi, gyda mân ddiwygiadau.
- Cafodd yr Adroddiad Hunanasesu ei ddiweddaru ym mis **Medi** yn dilyn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- Adroddwyd ar adborth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar yr Adroddiad Hunanasesu Drafft i'r Grŵp Arweiniol ar **5 Hydref**. Cymeradwyodd y Grŵp Arweiniol yr adroddiad i fwrw iddi i gyhoeddi.
- Galwyd yr Adroddiad Hunanasesu Drafft i gyfarfod y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar **23 Tachwedd** i'w adolygu cyn ei gyhoeddi.